Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	24 Ionawr 2023
Swyddog / Aelod Arweiniol	Y Cynghorydd Elen Heaton / David Soley (Gwasanaethau Cymorth Cymunedol)
Pennaeth Gwasanaeth	David Soley
Awdur yr Adroddiad	Alison Heaton, Swyddog Caffael a Chontractau (Gwasanaethau Cymorth Cymunedol)
Teitl	Cynlluniau Byw â Chymorth Anableddau Dysgu Sir Ddinbych

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys argymhellion i'r Cabinet gymeradwyo estyniad dros dro ychwanegol i gontractau Byw â Chymorth Anableddau Dysgu.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen penderfyniad o ran rhoi estyniadau dros dro i 41 o gontractau Byw â Chymorth Anableddau Dysgu. Ym mis Medi 2021 cymeradwyodd y Cabinet estyniadau tebyg a chymeradwyo proses i ymgymryd â thendrau bach dan Fframwaith Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer Byw â Chymorth i bob un o'r contractau hyn. Mae rhestr lawn o'r contractau hyn wedi'i hatodi yn atodiad 1.

2.2. Mae Rheolau Gweithdrefn Gontractau Cyngor Sir Ddinbych yn ei gwneud yn ofynnol i gael cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer ymestyn contractau gwerth dros £2 filiwn.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn cymeradwyo rhoi estyniadau dros dro i 41 o gontractau Byw â Chymorth Anableddau dysgu am gyfnod hyd at 30 Medi 2026 fan bellaf. Mae manylion y contract a'r amserlen ddiwygiedig arfaethedig ar gyfer ail-dendro'r contractau hyn ynghlwm yn atodiad 1.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Yn unol â chanllawiau cenedlaethol mae Byw â Chymorth wedi hen ennill ei blwyf yn un o'r dulliau a ffefrir gan Sir Ddinbych i fodloni anghenion pobl ag Anableddau Dysgu nad ydyn nhw'n gallu byw gyda'u Gofalwyr mwyach. Mae'n rhaid i gaffael gwasanaethau o'r fath fod yn unol â Rheolau Gweithdrefn Gontractau'r Cyngor a chydymffurfio â chyfraith ddomestig a chyfraith yr UE, sef Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

4.2. Mae contractau Byw â Chymorth wedi'u hymestyn dros y blynyddoedd yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau Corfforaethol. Fodd bynnag, mae angen i ni fynd i'r afael â'r farchnad ar gyfer pob un o'r contractau hyn.

4.3. Yn anffodus, o ganlyniad i oedi i weithredu Fframwaith Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer Byw â Chymorth, ac yna Pandemig COVID 19, nid yw'r gwaith wedi'i wneud mor gyflym â'r disgwyl. Cafodd yr estyniadau diwethaf hyd at 31 Mawrth 2023 eu cymeradwyo gan y Cabinet ym mis Medi 2021.

4.4. Wedi hyn, trefnwyd cyfarfod â darparwyr i drafod y camau nesaf ar gyfer y broses dendro, a gynhaliwyd ar 10 Rhagfyr 2021. Mynegodd darparwyr nifer o bryderon yn ystod y cyfarfod hwn; pryderon y cafodd eu hailadrodd wedyn gan Fforwm Gofal Cymru. Er nad oedd o fewn ein gallu ni i newid rhai pethau, gwnaethom ni ymrwymo i roi rhagor o ystyriaeth i sut y gallem ni leihau effeithiau negyddol ar ddarparwyr a dinasyddion. Yn anad dim, roedd hyn yn cynnwys ystyried sut y gallem ni alluogi mwy o ddewis a rheolaeth, yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) - ac ar ôl sawl trafodaeth fewnol, rydym ni wedi cytuno ar gynllun i alluogi ymchwiliad mwy trylwyr o'r dewis o daliadau uniongyrchol i ddinasyddion sy'n byw â chymorth.

4.5. Bydd y darn hwn o waith yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol yn cael ei arwain gan y Timau Anableddau Cymhleth ac Asesiadau Ariannol (taliadau

uniongyrchol). Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn cymryd hyd at 12 mis i'w gwblhau, a dyna'r rheswm dros y cynnig i hysbysebu'r tendrau cyntaf ym mis Ebrill 2024.

4.6. Ar gyfer y contractau nad yw taliadau uniongyrchol yn cael eu hystyried yn briodol ar ôl ymgynghori â dinasyddion, bydd tendrau bach yn cael eu cyflwyno ar sail unigol rhwng Ebrill 2024 a Gorffennaf 2026. Mae'n bosibl y bydd hyn yn lleihau nifer y contractau y bydd yn cael eu hail-dendro, yn amlwg yn dibynnu ar y niferoedd sy'n manteisio ar daliadau uniongyrchol, a thrwy hyn, bydd yn lleihau'r amser y bydd y broses ail-dendro'n ei gymryd.

4.7. Er mwyn ein galluogi ni i wneud y gwaith hwn ar daliadau uniongyrchol, ac yna ar ôl ei gwblhau, caniatáu ar gyfer y gweithgaredd ail-dendro gofynnol fel sy'n briodol, bydd angen estyniad ychwanegol i'r 41 o gontractau. Bydd yr estyniadau am gyfnod hyd at 30 Medi 2026 fan bellaf. Bydd y prosesau tendro'n cael eu cyflwyno fesul cam drwy gydol y cyfnod estyniad hwn, a bydd dyfarniadau'r contract yn cael eu gwneud ar ôl pob proses dendro unigol, felly bydd y mwyafrif yn cael eu dyfarnu cyn y dyddiad hwnnw.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Themâu Corfforaethol?

5.1. Mae darparu byw â chymorth i unigolion ag anableddau dysgu yn cefnogi'r flaenoriaeth gorfforaethol fod pobl ddiamddiffyn yn cael eu hamddiffyn ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl. Mae hefyd yn cefnogi pobl a chymunedau i ddatblygu annibyniaeth a chadernid. Pan fydd dinasyddion efallai'n gallu manteisio ar daliadau uniongyrchol, dylai'r dewis a'r rheolaeth y mae hyn yn ei gynnig ei wella ymhellach.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae cyllid parhaus ar gyfer y cynlluniau hyn wedi'i gynnwys yn y gyllideb a'r gwariant a ragwelir, nid yw'r rhain yn ymrwymiadau newydd. Ni fydd unrhyw gostau ychwanegol ar wahân i'r cynnydd gofynnol yn ystod cyfnod y contract. Bydd unrhyw gynnydd ychwanegol efallai'n ofynnol er mwyn i ddarparwyr fodloni gofynion cyfreithiol fel y Cyflog Byw Gwirioneddol Cenedlaethol.

6.2. Mae costau hanesyddol a chostau a ragwelir ar gyfer pob un o'r contractau hyn wedi'u cynnwys yn atodiad 1. Gyda'i gilydd, cyfanswm gwerth y contractau hyn o'u dyddiadau dechrau hyd at 31/03/2023 yw £59,771,380. Mae ganddyn nhw gyfanswm gwerth blynyddol o £6,437,834.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Rhoddodd yr Asesiad o Effaith ar Les 3 allan o 4 seren a sgôr o 31/36; cael effaith gadarnhaol ar bob un o'r Nodau Lles yn Sir Ddinbych.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae ymgynghoriad wedi dechrau â'r unigolion a'u teuluoedd/eiriolwyr sy'n byw yn yr eiddo ar hyn o bryd o ran y cais i gymeradwyo'r estyniadau dros dro, ac i ail-dendro'r 41 o gytundebau. Cynhaliwyd ymgynghoriad hefyd â staff Cyngor Sir Ddinbych, cydweithwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, darparwyr a chynrychiolwyr o Adrannau Cyfreithiol a Chaffael Cyngor Sir Ddinbych.

8.2. Mae cymeradwyaeth y Cabinet wedi'i roi yn flaenorol ar gyfer datblygu ac yna gweithredu Fframwaith Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer Byw â Chymorth. Ymgynghorwyd ar sail ranbarthol yn ystod trafodaeth yn ymwneud â chydweithio i ddatblygu'r broses gaffael gyffredin ar draws chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Cynhaliwyd ymgynghoriad hefyd â staff Cyngor Sir Ddinbych, cynrychiolwyr o'r adran Gyfreithiol a Chaffael, cydweithwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Darparwyr a Dinasyddion (a'u cynrychiolwyr/eiriolwyr).

8.3. Cymeradwyodd y Cabinet estyniadau i'r contractau hyn ym mis Medi 2021 yn ogystal â'r broses ar gyfer ymgymryd â thendrau bach dan Fframwaith Byw â Chymorth Gogledd Cymru.

8.4. Fel y nodwyd uchod, ar ôl y cyfarfod â Darparwyr ym mis Rhagfyr 2021, a'r pryderon a fynegodd Fforwm Gofal Cymru, cynhaliwyd ymgynghoriad ychwanegol a arweiniodd at y cynllun ar gyfer y gwaith ar daliadau uniongyrchol fel y manylir uchod.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae’r gwasanaeth wedi nodi yn Adran 6 bod cyllid parhaus ar gyfer y cynlluniau hyn wedi'i gynnwys yn y gyllideb a'r gwariant a ragwelir, ac nid ymrwymiadau newydd yw'r rhain. Mae’r gwasanaeth dan bwysau ariannol enfawr ar hyn o bryd a bydd angen i’r cynnydd mewn costau yn y dyfodol, sydd hefyd wedi’i nodi yn adran 6, gael ei gynnwys yn yr adroddiad cyllid blynyddol i’r Bwrdd Cyllideb. Mae’r argymhelliad yn cael ei gefnogi.

10. Beth yw’r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Byddai’r Awdurdod mewn sefyllfa fregus pe bai’n caffael gwasanaethau gan Ddarparwr heb gontract.

10.2. Mae'n bosib y gallai Sir Ddinbych gael ei herio am beidio â thendro'r contractau hyn. Gall y risg sy’n gysylltiedig â pheidio â mynd ati i dendro ddod gan gynigwyr posibl eraill nad ydyn nhw wedi cael cyfle i gystadlu am y gwasanaeth sy’n cael ei ddarparu. Mae darparwyr yn ymwybodol bod cyfyngiad amser ar yr estyniadau hyn a'r rheswm y maen nhw’n cael eu dyfarnu.

10.3. Pan fyddwn ni’n ail-dendro’r contractau hyn mae risg sylweddol y bydd yn arwain at gostau uwch. Bydd cynnydd ar sail chwyddiant hefyd rhwng nawr a'r tendrau. Dylid hefyd nodi bod LlC wedi ymrwymo ym mis Mehefin eleni i fwrw ymlaen â thalu Cyflog Byw Cenedlaethol i'r rhai sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i feincnodi'r cyfraddau ar adeg y tendro, mae tendrau'n cael eu gwerthuso ar y gymhareb 30% pris / 70% ansawdd. Bydd manyleb gwasanaeth ar gyfer pob un o'r cynlluniau yn cael eu hadolygu cyn pob tendr hefyd.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae Rheolau Gweithdrefn Gontractau Cyngor Sir Ddinbych yn nodi bod angen i Aelod Arweiniol wneud Penderfyniad Dirprwyedig i gymeradwyo contractau sy’n werth dros £1 miliwn (ond llai na £2 filiwn).

11.2. Mae gwasanaethau Byw â Chymorth yn cael eu cefnogi gan y Cyngor dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

11.3. Mae Gwasanaethau Byw â Chymorth yn cael eu rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.